# Canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru – Ymgynghoriad y Daith i Weithredu

## Adroddiad Terfynol

Llywodraeth Cymru

Fersiwn 2 / Ionawr 2024

# Canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru – Ymgynghoriad y Daith i Weithredu

Geof Andrews, Joseff Howells, Maya Richardson, Hannah Rigley, Cameron Shields / Miller Research (UK) Ltd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Maya Richardson
maya@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
   - Trosolwg ........ 1
   - Cefndir polisi ........ 1
   - Cefndir yr ymgynghoriad ........ 2
   - Cynnwys gweddill yr adroddiad ........ 2
2. Methodoleg ........ 3
   - Dull dadansoddi ymatebion i’r ymgynghoriad ........ 3
   - Trosolwg o’r ymatebion ........ 3
3. Canfyddiadau ........ 5
   - Safbwyntiau ar addasrwydd a defnyddioldeb y canllawiau arfaethedig ........ 5
   - Effeithiau ar y Gymraeg ........ **Error! Bookmark not defined.**
   - Sylwadau ychwanegol ........ 23
4. Casgliad ........ 26
5. Atodiad A – Cwestiynau’r Ymgynghoriad ........ 28

## Rhestr Tablau

Tabl 3.1 – Ymatebion i Gwestiwn 1 ........ 5
Tabl 3.2 – Ymatebion i Gwestiwn 2 ........ 9
Tabl 3.3 – Ymatebion i Gwestiwn 3 ........ 14
Tabl 3.4 – Ymatebion i Gwestiwn 4 ........ 17

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 3.1 – Ymatebion i Gwestiwn 1 ........ 5
Ffigur 3.2 – Ymatebion i Gwestiwn 2 ........ 9
Ffigur 3.3 – Ymatebion i Gwestiwn 3 ........ 14
Ffigur 3.4 – Ymatebion i Gwestiwn 4 ........ 17

## Geirfa

| Talfyriad | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| J2R | Y Daith i Weithredu (Journey to Rollout) |

# 1. Cyflwyniad

### Trosolwg

1.1 Ym mis Hydref 2023, comisiynwyd Miller Research gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion i ymgynghoriad "Ymlaen â'r Daith"[1] sy'n rhoi canllawiau i ddisodli adran "Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm"[2] o ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cefndir byr i'r maes polisi a'r ymgynghoriad cyn crynhoi methodoleg a chanfyddiadau'r ymgynghoriad.

### Cefndir polisi

1.2 Ers mis Medi 2023, mae pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 8, a bydd yn parhau'r cyflwyno'n raddol tan 2026, pan fydd yr holl ddysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru'n cael eu haddysgu trwy'r Cwricwlwm i Gymru. Caiff canllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru eu diweddaru'n flynyddol bob mis Ionawr er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd a datblygu'r arferion gorau wrth barhau i weithredu'r Cwricwlwm ym mhob ysgol a grŵp blwyddyn.[3]

1.3 Diben adran "Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm" canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yw "cefnogi ysgolion drwy ddarparu casgliad cyffredin o ddisgwyliadau, blaenoriaethau a gwybodaeth ategol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm". Mae'r canllawiau hyn, a gyhoeddwyd o dan Adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn rhai statudol. Mae'n rhoi argymhellion ar sut y dylai ysgolion weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a rhaid iddynt gael eu hystyried gan ysgolion, ond nid yw'n orfodol dilyn pob cam yn y canllawiau. Cynghorir ysgolion y gallant ffurfio eu polisïau eu hunain sy'n ysytried cyd-destun eu hysgol eu hunain, ac wrth wneud hynny wyro oddi wrth y canllawiau statudol pan fydd rheswm da.

---

[1] https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-ymlaen-ar-daith
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-weithredu-r-cwricwlwm/
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

**Cefndir yr ymgynghoriad**

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn syntheseisio dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau arfaethedig i ddisodli adran "Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm" yng nghanllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad yn agored am wyth wythnos o 18 Medi i 13 Tachwedd 2023. Rhoddodd y ddogfen ymgynghori hon drosolwg o ddiben yr adran canllawiau, yn ogystal â'r "canllawiau ynghylch blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a dysgu" a "disgwyliadau ymarferol ar gyfer proses gylchol o gynllunio cwricwlwm". Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn gosod sail ar gyfer y diweddariad i'r canllawiau y mae disgwyl ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

**Cynnwys gweddill yr adroddiad**

1.5 Mae adran nesaf yr adroddiad yn rhoi trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn amlinellu'r dull a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi'r ymgynghoriad. Mae Adran 3 yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r dadansoddiad hwn, gan gyfuno'r negeseuon a roddwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae Adran 4 yn rhoi crynodeb byr o themâu allweddol.

## 2. Methodoleg

**Dull dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad**

2.1 Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu codio â llaw a'u dadansoddi gan o leiaf ddau ymchwilydd fesul cwestiwn gan ddefnyddio dadansoddi thematig. Lluniwyd ac amlygwyd themâu a phatrymau cyffredin, gydag ymchwilwyr yn cydweithio i gynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o ymatebion. Cafodd yr holl ymatebion eu dadansoddi yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno, a oedd yn golygu bod ymatebion Cymraeg yn cael eu dadansoddi drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn caniatáu dealltwriaeth lawn a manwl o ystyr yr ymatebion. Lle'r oedd ymatebwyr yn croesgyfeirio elfennau cynharach o'u hymatebion neu'n ailadrodd cynnwys air am air o gwestiwn i gwestiwn, rhoddwyd blaenoriaeth i'r achos cyntaf o'r ymateb hwn yn y dadansoddiad.

2.2 Dadansoddwyd cwestiynau categori drwy ddefnyddio tablau colynnu Microsoft Excel. Mae'r holl ganrannau'n seiliedig ar gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn penodol hwnnw er mwyn cyfrif am lefelau amrywiol o ddiffyg ymatebion.

**Trosolwg o'r ymatebion**

2.3 Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 32 o ymatebion, a oedd yn cynnwys 23 o ymatebion ar-lein a 9 o ymatebion ychwanegol drwy'r post ac e-bost.

2.4 Derbyniwyd dau ymateb yn y Gymraeg, gyda'r 30 o ymatebion eraill a oedd yn weddill wedi eu cyflwyno yn y Saesneg.

*Demograffeg ymatebwyr*

2.5 Mae'r cwestiynau terfynol yn yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau demograffig dewisol er mwyn casglu dealltwriaeth o sampl yr ymatebwyr. Gofynnodd y cwestiynau hyn ynghylch swyddogaethau'r ymatebwyr a oedd yn rhoi adborth ar y canllawiau er mwyn deall eu cefndiroedd proffesiynol.

2.6 Dywedodd 11 o'r 32 o ymatebwyr bod eu gwaith yn ymwneud â chyflwyno addysg. Ymatebodd tri nad cyflwyno addysg oedd eu gwaith. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

2.7 Ymysg y rheini sy'n gweithio mewn addysg, roedd ymatebwyr yn cynnwys y rheini sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, consortia/partneriaethau rhanbarthol, cyrff rheoleiddio, undebau addysgu ac yn y trydydd sector. Roedd eu rolau'n cynnwys swyddogion gwella ysgolion, arolygwyr, swyddogion polisi, ymgynghorwyr a swyddogion undebau llafur.

2.8 Roedd y rheini a oedd yn ymateb ar ran sefydliad yn crybwyll y sefydliadau neu grwpiau canlynol:

- ACAC
- ASCL Cymru
- Gwasanaeth Addysg Gatholig Cymru a Lloegr
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Estyn
- Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion Cynradd ac Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion Uwchradd GwE
- NAHT Cymru
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Cymru
- RNIB
- Cyngor Abertawe.

# 3. Canfyddiadau


### Safbwyntiau ar addasrwydd a defnyddioldeb y canllawiau arfaethedig

*Cwestiwn 1 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn, ochr yn ochr â chanllawiau cyfredol y Cwricwlwm i Gymru, yn nodi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru?*

**Tabl 3.1 – Ymatebion i Gwestiwn 1**

| Ymateb | Nifer | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 8 | 28 |
| Cytuno i raddau | 10 | 34 |
| Ddim yn cytuno nac anghytuno | 5 | 17 |
| Anghytuno i raddau | 2 | 7 |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 14 |
| Cyfanswm Llawn | 29 | 100 y gant |

**Ffigur 3.1 – Ymatebion i Gwestiwn 1**




3.1 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (ychydig dros dri mewn pump) yn cytuno i raddau neu'n cytuno'n gryf fod y canllawiau arfaethedig, law yn llaw â chanllawiau presennol y Cwricwlwm i Gymru, yn nodi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd tua un

mewn pump o ymatebwyr yn anghytuno i raddau neu'n anghytuno'n gryf, gyda nifer tebyg yn mynegi teimladau niwtral ar y mater.

3.2 Datgelodd ymatebion ansoddol fod llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r ymgais i symleiddio canllawiau i ysgolion, gyda llawer o'r farn fod hyn wedi ei strwythuro'n dda ac yn amlinellu disgwyliadau clir. Amlygwyd Adrannau 2 a 3 gan un ymatebydd fel rhai neilltuol o glir, gyda barn bod Adran 2 wedi ei strwythuro'n dda ac yn gwneud y disgwyliadau'n glir y dylai'r pedwar cwestiwn creiddiol yng nghynllun y cwricwlwm gael eu integreiddio i'r Cwricwlwm i Gymru wrth ei weithredu. Yn yr un modd, mae Adran 3 yn amlinellu'n glir gyfnodau cynllunio'r cwricwlwm, yn ôl yr ymatebydd. Roedd eraill yn mynegi cefnogaeth ehangach o eglurder disgwyliadau a nodir yn y canllawiau, gan ddangos bod y "negeseuon yn ddefnyddiol" a bod Llywodraeth Cymru yn "iawn i geisio gwneud y canllawiau'n fyrrach a haws ymdrin â nhw." Roedd un ymatebydd yn croesawu bod y canllawiau'n cael eu hadolygu mewn ymateb i brofiadau o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru wrth i'r gweithredu barhau.

3.3 Ar yr un pryd, roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch eglurder y canllawiau, gan eu canfod yn "rhy amwys". Roedd teimlad a oedd yn cael ei rannu gan grŵp o ymatebwyr nad yw'r canllawiau efallai, yn eu ffurf bresennol, yn helpu ysgolion yn ddigonol i ddeall disgwyliadau a gofynion deddfwriaethol. Roedd rhai ymatebwyr yn canfod y canllawiau fel rhai rhy helaeth ac nad oedd yn hawdd mynd drwyddynt, gyda phryderon o ran pa mor ymarferol oedd darllen a deall y ddogfen. Roedd un ymateb yn awgrymu bod angen i'r canllawiau fod yn haws eu deall, gyda galwad am symleiddio'r ddogfen a'i gwneud yn fwy ymarferol i athrawon o gefndiroedd amrywiol. Ailadroddwyd y pwynt ar ymarferoldeb, gyda rhwystredigaeth gan un nad yw'r canllawiau'n "dweud yn benodol wrthon ni beth i'w wneud". Roedd galwad am symleiddio negeseuon allweddol mewn fformatau gwahanol er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.

3.4 Roedd rhywfaint o'r feirniadaeth o hygyrchedd y canllawiau'n seiliedig ar awydd i osgoi ailadrodd a sicrhau bod y canllawiau'n cyfateb â dogfennau eraill. Mae un ymateb yn beirniadu'r ddogfen am ei diffyg cydlyniaeth am y rhesymau hyn, gan ei gweld fel pe bai'n gorgyffwrdd â dogfennaeth arall. Nodwyd y crynodeb o'r ddeddfwriaeth mewn un ymateb fel neges fwy cryno ar oblygiadau'r canllawiau i ysgolion, gyda theimlad fod y negeseuon yn dod yn ddryslyd a'r cynnwys yn rhy helaeth wrth gyfeirio at hyperddolenni â deunyddiau atodol. Roedd amryw o ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y rhain yn gyson â chanllawiau eraill, gan grybwyll yr angen am gysondeb â chanllawiau gwella ysgolion yn enwedig. Roedd un ymatebydd yn croesawu canllawiau ychwanegol ar ddefnyddio'r Disgrifiadau Dysgu ond yn awgrymu y gellid rhoi lle amlycach iddynt yn yr adran asesu er mwyn rhwystro camddehongli neu gamddefnyddio. Roedd ymatebwyr yn awgrymu yn lle hynny fyrhau'r canllawiau i un dudalen a/neu eu symleiddio ymhellach.

3.5 Roedd adborth yn dangos angen am eglurder hefyd ynghylch union ddiben y canllawiau hyn. Roedd hyn yn ymwneud â phryder ynghylch sut y disgwylir iddynt gael eu deall a'u gweithredu. Gan gyfeirio at ddiben y canllawiau o "gefnogi ysgolion a lleoliadau i ddatblygu'r prosesau trefniadol o ddatblygu ac adolygu eu cwricwlwm", teimlai un ymatebydd y gellid cael yr argraff fod y canllawiau'n ymwneud yn hytrach â'i weithredu. Roedd yr ymateb hwn yn awgrymu ailfformiwleiddio i esbonio mai diben y canllawiau hyn yw "helpu ysgolion i gynllunio a threfnu eu cwricwlwm wrth gyflawni eu dyletswyddau i gynllunio ac adolygu eu cwricwlwm, yn hytrach na'r hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud yn benodol i'w gynllunio ac i adolygu hynny." Yn ogystal ag egluro'i rôl wrth weithredu, roedd ymatebwyr yn ceisio eglurder ar pa mor hyblyg oedd y canllawiau, gydag un yn dadlau ei bod yn "bwysig fod y canllawiau'n nodi disgwyliadau, yn hytrach na phennu'n rhy haearnaidd ynghylch y ffordd orau y gall ysgolion weithio tuag at wireddu'r disgwyliadau hynny." Mae'r ymatebydd yn croesawu datganiadau fel bod "lleoliad yn rhydd i

fformiwleiddio ei bolisi ei hun." Pwysleisiwyd yr angen am wahaniaethu clirach rhwng yr hyn sydd raid, a'r hyn y dylid, ei wneud. Yn ogystal, teimlad ymatebydd arall oedd bod y cyfeiriadau at fframwaith anstatudol ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd â'r potensial i fod yn ailadroddus, gyda risg y byddent yn arwain at orbwyslais ar werthuso ar gyfer atebolrwydd ac arolygiadau yn hytrach na gweld gwerthuso fel elfen allweddol o broses gylchol o lunio cwricwlwm.

3.6 Mynegwyd pryder hefyd ynghylch effaith y canllawiau ar athrawon ac addysgu. Roedd pryderon am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r pentwr llethol o ganllawiau sydd wedi eu hanelu at ysgolion. Roedd y swm o wybodaeth, gan gynnwys cyfeiriadau at lawer o ddogfennau eraill, yn cael ei weld fel rhywbeth ac iddo'r potensial o fod yn llethol. Roedd rhai ymatebwyr yn amheus a fyddai amser gan athrawon i dreulio'n llawn y canllawiau yn eu ffurf bresennol. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â'r effaith bosibl ar bwyslais yr addysgu. Roedd un ymatebydd yn nodi newid mewn pwyslais mewn ysgolion tuag at "waith papur a thaflenni cynllunio" yn hytrach nag agweddau craidd addysgu. Roedd pryder y gallai'r ddogfen fod yn arwain at bwyslais gormodol ar brosesau gweinyddol, ac roedd ymatebion unigol yn awgrymu bod pynciau penodol megis TGCh a Gwyddoniaeth o dan anfantais yn ffrâmwaith y Cwricwlwm i Gymru, gyda galwadau am ddull mwy cytbwys.

3.7 O ran rôl athrawon, gwethfawrogwyd y pwyslais ar ddatblygu ar y cyd. Er mwyn cryfhau dull o ddatblygu ar y cyd, roedd awgrym i wneud rôl ymarferwyr yn fwy eglur ac amlwg, gyda chyfeiriad yn Adran 2.1 at rôl arweinyddiaeth yn y broses gynllunio fel enghraifft dda. Mae hyn yn adlewyrchu ystyriaeth o gyfraniad ymarferol athrawon yn y broses weithredu.

3.8 Yn gyffredinol, ni chaiff y ddogfen ei gweld fel un sy'n cyflwyno cynnwys newydd, ond yn hytrach yn crynhoi canllawiau sy'n bod eisoes – gyda rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch ailadrodd; er enghraifft, safbwyntiau fel "dydyn nhw'n ddim ond ailbobiad o

ddeunydd sy'n fwy tebygol o ddrysu na helpu." Roedd rhai, ar y llaw arall, yn gweld y dadansoddiad hwn o ddisgwyliadau'n ddefnyddiol. Y disgwyliad gan rai yw bod cynlluniau cwricwlwm ysgolion yn annhebygol o newid yn sylweddol ar sail eu cyhoeddi.

3.9 Roedd amryw o ymatebion yn mynegi pryderon ynghylch amseru'r canllawiau, gydag awgrymiadau y gallai fod yn rhy hwyr i rai ysgolion a allai eisoes fod wedi mabwysiadu cwricwlwm newydd. Roedd beirniadaeth o'r fframwaith megis "sut fyddwn ni'n" sefydlu elfen benodol yn y cwricwlwm yn hytrach na "sut ydym ni" eisoes yn sefydlu'r elfen honno.


3.10 Yn olaf, roedd rhai sylwadau'n mynegi anghytundeb gyda'r canllawiau ac yn beirniadu materion ehangach megis distrywiad canfyddedig diwylliant Cymru, "rhoi'r gorau i ymdrechion i drechu tlodi", a'r angen am fwy o bwyslais ar gyfranogiad plant unigol mewn addysg a'u mynediad ato. Roedd un ymatebydd yn amau'r ffordd y cafodd y cwestiwn ymgynghori hwn ei fframio, gan ei weld fe pe bai'n "tanseilio'r angen am i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru fod yn broses gylchol."

*Cwestiwn 2 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn yn cynnwys lefel briodol o fanylder?*

**Tabl 3.2 – Ymatebion i Gwestiwn 2**

| **Ymateb** | **Nifer** | **Canran o'r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 6 | 21.43 |
| Cytuno i raddau | 8 | 28.45 |
| Ddim yn cytuno nac anghytuno | 4 | 14.29 |
| Anghytuno i raddau | 5 | 17.86 |
| Anghytuno'n gryf | 5 | 17.86 |
| **Cyfanswm Llawn** | **28** | **100 y cant** |

**Ffigur 3.2 – Ymatebion i Gwestiwn 2**




3.11 Roedd tua hanner (49.88 y cant) o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau arfaethedig yn cynnwys lefel briodol o fanylder. Roedd dros draean (35.71 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan awgrymu bod lefel y manylder yn anfoddhaol i gyfran sylweddol o ymatebwyr.

3.12 Roedd adborth ansoddol yn cydnabod agweddau cadarnhaol y canllawiau, gyda rhai yn gwerthfawrogi ei fformat byrrach a mwy penodol a'r defnydd effeithiol o hyderdolenni er mwyn hygyrchedd. Amlygwyd y defnydd o bwyntiau bwled a chwestiynau allweddol gan rai ymatebwyr fel rhywbeth neilltuol o ddefnyddiol. Fodd, bynnag, roedd pryder ynghylch y llu o ddogfennau a chanllawiau y cyfeirwyd atynt yn y ddogfen hon, gydag awydd helaeth am ganllawiau eglurach a mwy cryno fyth. Roedd un ymateb yn nodi'n benodol fod lefel y manylder yn ddefnyddiol a hygyrch os ydych chi'n chwilio am ganllawiau penodol, ond ei bod yn rhy hir i wasanaethu fel dogfen o ganllawiau cyffredinol. Roedd awgrymiadau i gyflawni adolygiad cyfannol o'r ddogfen i gael gwared ar ailadrodd diangen ac i strwythuro'r canllawiau mewn ffordd sy'n hawdd i ysgolion eu treulio a'u gweithredu.

3.13 Gallai canllawiau haws eu deall fod yn ffurf fersiwn gryno, prif negeseuon allweddol, mwy o gynrychioliadau gweledol, neu weithdai i ymarferwyr. Cyfeiriwyd at y model gweledol yng nghanllawiau'r Daith i

Weithredu fel enghraifft ddefnyddiol o graffeg, sy'n atgyfnerthu'r broses gylchol. Mae adborth o drafodaethau anffurfiol gyda phrifathrawon ac ymarferwyr yn awgrymu angen am fersiynau byrrach sydd wedi eu teilwra i grwpiau penodol fel llywodraethwyr, prifathrawon, ac ymarferwyr ystafell ddosbarth.

3.14 Teimlai nifer bach o ymatebwyr fod hyd helaeth y canllawiau a diffyg manylder digonol yn golygu bod y canllawiau'n rhy agored i wahanol ddehongliadau gan arweinwyr ac ymarferwyr. Roedd eraill yn crybwyll "gwybodaeth sy'n gwrth-ddweud" ac yn nodi meysydd penodol o ailadrodd, gan gynnwys:

- Disgrifiadau dysgu yn adrannau 2.4 a 2.5
- Cyfeiriadau at fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, gydag awgrym y gallai hyn gysylltu â chanllawiau gwella ysgolion yn lle. Ar y llaw arall, teimlai un ymateb y dylai fod mwy o bwyslais bellach ar werthuso na gweithredu gan fod y Cwricwlwm eisoes wedi cychwyn ar waith.
- Trafodaethau am "ddatblygu cwricwlwm ac iddo ddiben" yn Adran 2.2, gyda phryder y gellid drysu rhwng hyn a phedair diben y cwricwlwm. Roedd yr ymateb yn awgrymu fframio agwedd hon y canllawiau fel "datblygu taith ddysgu neu gontinwwm dysgu."
- Amheuon ynghylch cyflwyno mwy o gwestiynau myfyrio, o ystyried y cwestiynau sydd eisoes yn yr adnodd Gwerthuso a Gwella.

3.15 Soniwyd hefyd am fylchau yn y canllawiau arfaethedig, gan gynnwys y canlynol:

- Sut mae'r broses yn cysylltu â hunan-werthuso ac Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, gyda chyfle am ganllawiau ar hyn i helpu ysgolion i ganolbwyntio eu hymdrechion ac adeiladu capasiti arwain.
- Rolau Llywodraeth Cymru, consortiau rhanbarthol, ac awdurdodau lleol wrth gefnogi ysgolion.

- Asesu ffurfiannol "i lywio addysgu a dysgu effeithiol o ddydd i ddydd" a deall systemau a chynlluniau asesu. Gallai fod hyn angen cyfeirio at y canllawiau Asesu.
- Angen cyfeirio at awdurdodau esgobaethau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ar ddiwedd Adran 1 sy'n cyfeirio at y cymorth a gynigir i ysgolion gan amrywiaeth o gyrff.
- Rhai galwadau am gyngor mwy ymarferol ar sut i weithredu'r canllawiau.
- Cyfeiriad at God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a manylion ar ddatblygu cwricwla i ddysgwyr sydd ag ADY ac ymwybyddiaeth o effaith ac anghenion cymorth i'r dysgwyr hyn.

3.16 Mae ymatebion hefyd yn nodi pwysigrwydd diweddaru ac adolygu'r canllawiau'n barhaus wrth i'r cwricwlwm ddatblygu. Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd dull o ddatblygu'r cwricwlwm drwy dreialu. Roedd awgrymiadau am ganllawiau cam-wrth-gam i ysgolion adolygu eu cwricwlwm dros amser. Ar y llaw arall, mynegwyd pryder ynghylch y canllawiau'n anfwriadol lesteirio dulliau arloesol trwy fod yn rhy gyfyngol.

3.17 Roedd llawer o ymatebwyr yn crybwyll gymaint o amser ymarferwyr y byddai'n ei gymryd i ymgyfarwyddo â'r canllawiau hyn yn ddigonol a/neu ddiffyg cymorth ac adnoddau digonol i'w gweithredu. Er bod rhai yn gwerthfawrogi eglurder ac ailadrodd canllawiau sy'n bod eisoes, roedd cydnabyddiaeth na all canllawiau ar eu pen eu hunain wella cyflwyno'r cwricwlwm. Law yn llaw â hyn, roedd galwad am gyllid ac adnoddau digonol i ysgolion weithredu'r cwricwlwm arfaethedig yn effeithiol, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau adnoddau i wasanaethau eraill a mynd ati mewn "dull amlasiantaeth" i helpu mynd i'r afael a datrys y llawer o heriau mae plant a phobl ifanc y neu hwynebu.

3.18 Roedd dau ymateb yn mynegi pryderon ynghylch diffyg meini prawf asesu ac eglurder ynghylch sut y dylai ysgolion fesur cynnydd. Roedd un o'r ymatebwyr hyn yn croesawu'r iaith ynghylch datblygu dealltwriaeth gyffredinol o gynnydd â'i berthynas â deialog

broffesiynol, ond yn teimlo bod yn ysgolion yn dal yn fyr o ganllawiau clir ar sut i fesur cynnydd ac yn teimlo bod asesu'n cael ei bortreadu mewn ffordd ddryslyd. Roedd yr ymateb hwn yn amlygu asesu ar gyfer cynllunio fel maes posibl o ddryswch, ac yn awgrymu cyfeirio at y canllawiau Asesu.

3.19 Roedd un ymateb yn amlygu pryderon yn ymwneud â'r dewis o derminoleg a chywirdeb cyfieithiadau. Roedd yr ymateb yn tynnu sylw at ddewis o derminoleg a allai ddrysu darllenwyr, yn enwedig rhwng canllawiau Saesneg a Chymraeg. Rhoddwyd enghreifftiau o gyfieithiadau neu ddewis o derminoleg a all beri anawsterau, gan gynnwys:

- Adran 2.6: "Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn dathlu galluogedd a barn broffesiynol pob ymarferydd" lle defnyddir y gair "galluogedd" am "agency" yn Saesneg. Er mai "galluogedd" yw'r cyfieithiad cydnabyddedig a restrir yn Term Cymru[4] roedd un ymatebydd i'r ymgynghoriad yn teimlo nad yw'r cyfieithiad hwn yn cyfleu'n ddigon yr ystyr a fwriadwyd.
- Adran 3: "Disgwyliadau ymarferol ar gyfer dull iterus o gyflwyno'r cwricwlwm" ("Practical expectations for iterative curriculum design") yn hytrach na defnyddio termau fel "cylchol / cyclical" sydd â chyfatebiaeth gliriach yn y ddwy iaith.

3.20 Yn olaf, roedd nifer bach o ymatebion yn pwysleisio ystyriaethau sy'n ymwneud â mathau penodol o ysgolion a phynciau penodol. Roedd un ymateb yn hyrwyddo'r angen i gyfeirio at awdurdodau esgobaethol ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac un arall yn mynegi barn negyddol am y cynhwysiant o fewn unedau cyfeirio disgyblion ("dydyn nhw ddim yn gweithio"). Mynegwyd pryderon hefyd gan ymatebwyr unigol am lefel y manylder wrth ddehongli pynciau o dan Faes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg, yn enwedig yn ymwneud ag esblygiad a chreadaeth. Roedd un ymateb yn datgan y dylid cael gwared ar ieithoedd tramor modern.


[4] Byd Term Cymru

*Cwestiwn 3 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn yn cyfeirio'n effeithiol at ddeunyddiau ategol y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau'r Fframwaith?*

**Tabl 3.3 – Ymatebion i Gwestiwn 3**

| Ymateb | Nifer | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 8 | 26.67 |
| Cytuno i raddau | 9 | 30.00 |
| Ddim yn cytuno nac anghytuno | 3 | 10.00 |
| Anghytuno i raddau | 6 | 20.00 |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 13.33 |
| **Cyfanswm Llawn** | **30** | **100 y cant** |

**Ffigur 3.3 – Ymatebion i Gwestiwn 3**




3.21 Roedd 57 y cant o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu i ryw raddau fod y canllawiau'n effeithiol yn eu nod o gyfeirio at ddeunyddiau ategol ac adrannau eraill o ganllawiau'r Fframwaith. Roedd 33 y cant yn anghytuno'n gryf neu i raddau, gyda'r 10 y cant a oedd yn weddill yn mynegi niwtraliaeth ar y cwestiwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cydnabod yn gadarnhaol effeithiolrwydd y canllawiau wrth gyfeirio at ddeunyddiau'r Cwricwlwm i Gymru.

3.22 Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryderon fod y canllawiau'n llethol oherwydd swm anferthol yr wybodaeth a gynhwysir ynddynt. Roedd y

pryderon yn amlygu canfyddiad o risg mynd ar goll yn y ddogfen a risg uchel o fethu â chanolbwyntio oherwydd ei hyd. Roedd un ymatebydd yn awgrymu fformat cyflwyno mwy strwythuredig gyda chamau, neu y gallai crynodeb o syniadau allweddol fod yn ddefnyddiol wrth osgoi llethu gormodol â gwybodaeth.

3.23 Roedd llawer o'r ymatebion ansoddol yn nodi teimlad clir bod nifer yr hyperddolenni – 52, fel y nododd un ymateb – at ddogfennau ategol a restrir yn y canllawiau yn ormod o wybodaeth i ddisgwyl i ymarferwyr ddarllen drwyddo. Awgryma un enghraifft a roddwyd gan ymateb fod Adran 3.1.2 yn gofyn am dri thic a bod ganddi wedyn wahanol anogaethau ar y wefan gysylltiedig, gan wneud ei darllen yn brofiad tameidiog ac anodd. Mae ymateb arall yn nodi bod enghreifftiau fel Adran 3.1.2 a'r nifer uchel o hyperddolenni yn "peri bod darllen y canllawiau arfaethedig yn brofiad digyswllt sy'n effeithio'n negyddol ar fynediad effeithlon at y cynnwys ac felly'n lleihau dealltwriaeth y darllenydd." Adroddir bod tudalennau sydd â hyperddolenni iddynt yn defnyddio technoleg wahanol a'u bod yn gyffredinol heb gysondeb â'r ddogfen ganllawiau. Rhoddir enghraifft lle mae dwy dudalen â hyperddolenni – yr adnodd Gwerthuso a Gwella a'r fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd – yn wahanol yn eu geiriad wrth ymdrin â chwestiynau'n ymwneud â chynnydd, gan ysgogi'r angen am gysondeb â chanllawiau'r Fframwaith.

3.24 Er gwaethaf y swm anferthol o wybodaeth, yn ôl ymatebwyr mae meysydd o hyd yn canllawiau sy'n fyr o ddyfnder digonol i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Dywed un fod yr ymatebydd yn dal yn "ansicr" ynghylch beth yw'r disgwyliadau o ran y Gymraeg gan "nad ydynt yn amlwg yn y ddogfen". Mae amryw o ymatebion sy'n cyfeirio at ddiffyg pendantrwydd, yn enwedig wrth ymdrin â phynciau egwyddorol ac addysgu mewn ffordd ddiduedd, yn ogystal ag ofnau gan un ymatebydd y byddai myfyrwyr yn "cael eu dylanwadu'n ormodol tuag at un safbwynt penodol".

3.25 Mae rhywfaint o'r adborth yn mynegi awydd am enghreifftiau ymarferol, elfennau gweledol a graffeg o fewn y canllawiau i wella

dealltwriaeth. “Lle mae’r enghreifftiau? Mae’n iawn cael gwybod mai hyn yw beth sydd angen inni ei wneud, ond mae arnom angen enghraifft o sut mae’n edrych.” Mae’r cais am i wybodaeth gael ei harddangos mewn dull gweledol yn deillio o’r awydd am ddogfen ganllawiau fwy cryno. Roedd cyfeiriadau at enghreifftiau o arferion da ac astudiaethau achos yn cael eu gwerthfawrogi gan lawer, er y teimlai rhai ymatebwyr nad oedd yr astudiaethau achos yn ddigon penodol; “Byddai’n fwy effeithiol cael llai o enghreifftiau’n dangos arferion da penodol,” meddai un, gan awgrymu y byddai’r diffyg pendantrwydd yn llesteirio gweithredu’r canllawiau yn effeithiol.

3.26 Roedd pryderon amlwg hefyd am effaith bosibl y canllawiau ar lwyth gwaith. Mae hyn yn cynnwys cais am asesiad o’r effaith ar lwyth gwaith a disgwyliadau cliriach, gyda rhai’n pwysleisio pwysigrwydd egluro’r elfennau statudol ac anstatudol, yn ogystal â disgwyliadau o ran sut mae ymarferwyr i fod i ddefnyddio’r canllawiau hyn. Mae un ymateb yn nodi y byddai’n fuddiol cael fersiwn gryno i’w darllen gan staff nad oes ganddynt y capasiti amser i ddarllen drwy’r holl ganllawiau. Law yn llaw â phryderon am lwythi gwaith, mynegwyd amheuon hefyd ynghylch pa mor ymarferol yw’r canllawiau a awgrymir, gyda galwad ar i Lywodraeth Cymru amlinellu disgwyliadau ymarferol ar sut y dylai ysgolion ddefnyddio’r canllawiau ac ystyried lleoliadau penodol. Roedd un ymateb yn amlygu’r newidiadau niferus sy’n digwydd yr un pryd, gan gynnwys diwygio system Anghenion Dysgu Ychwanegol, diwygiadau i gymwysterau, a “dull newydd Estyn”.

3.27 Daeth pryderon i’r amlwg nad yw’r canllawiau yn cyfeirio at y cod ADY, a chaiff hepgor hyn ei weld fel “testun pryder” oherwydd ei bwysigrwydd i les a diogelwch plant sydd ag anableddau gan gynnwys nam ar y golwg. Er y cyfeirir at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yng Nghrynodeb Deddfwriaeth y Cwricwlwm i Gymru, sydd â hyperddolen iddo yn yr adran “Ymlaen â’r Daith” o ganllawiau’r fframwaith, dengys y darn hwn o adborth na theimlir bod hyperddolen at y Crynodeb

Deddfwriaeth yn amlygu'n ddigonol yr holl reoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ADY. Roedd hepgoriadau eraill a dogfennau y dymunai ymatebwyr weld hyperddolenni atynt yn cynnwys:

- RevivR i Ysgolion – Ap i helpu athrawon weithredu adfywio cardio pwlmonaidd (CPR) mewn argyfwng.
- Cynigion Cymwysterau Cymru i egluro trafodaeth y ddogfen hon o asesu ac asesiadau ffurfiol TGAU.
- Y canllawiau ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir, a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer addysg gynnar mewn ysgolion.
- Mwy o ganllawiau ynghylch disgwyliadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.


3.28 I grynhoi, er bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n effeithiol wrth gyfeirio at ddeunyddiau ategol, mae'r teimlad cyffredinol yn adleisio'n ôl am symiau llethol o wybodaeth, diffyg ymarferoldeb gan ychwanegu ymhellach at lwyth gwaith athrawon a diffyg manylion penodol mewn rhai adrannau.

*Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau a roddwyd yn Ymlaen â'r Daith ar grynodebau o'r cwricwlwm yn ddefnyddiol?*

**Tabl 3.4 – Ymatebion i Gwestiwn 4**

| **Ymateb** | **Nifer** | **Canran o'r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 9 | 32.14 |
| Cytuno i raddau | 9 | 32.14 |
| Ddim yn cytuno nac anghytuno | 3 | 10.71 |
| Anghytuno i raddau | 5 | 17.86 |
| Anghytuno'n gryf | 2 | 7.14 |
| **Cyfanswm Llawn** | **28** | **100 y cant** |

**Ffigur 3.4 – Ymatebion i Gwestiwn 4**




3.29 Datgelodd dadansoddiad fod 64 y cant o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu i raddau fod y canllawiau ar grynodebau o'r cwricwlwm yn "ddefnyddiol", gyda 25 y cant yn cofnodi eu bod yn anghytuno'n gryf neu i raddau.

3.30 Yn gyffredinol mynegwyd teimladau cadarnhaol ynghylch defnyddioldeb y canllawiau, gyda dau ymateb yn nodi eu bod yn gweithredu fel meincnod i ysgolion ac yn dangos y cyfeiriad iawn i arweinwyr, gyda phwyslais ar bwysigrwydd eglurder cyfreithiol yn y canllawiau. Fodd bynnag, mae'r ymatebion yn lleisio pryderon hefyd ynghylch bod ysgolion yn brin o'r adnoddau llawn i weithredu'r argymhellion. Awgryma un ymateb nad oes "dim byd newydd" yn y canllawiau nad yw wedi cael sylw mewn dogfennaeth addysg o'r blaen, gan awgrymu canfyddiad o ddiffyg arloesi na gweledigaeth ffres.

3.31 Dengys ymatebion y gallai'r canllawiau presennol elwa o ddisgwyliadau cliriach ynghylch lefel y manylder sydd ei angen ar gyfer amrywiol agweddau o grynodebau o'r cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys nodi'r dyfnder o wybodaeth sydd ei angen ar gyfer cynnydd dysgu, gan sicrhau bod addysgwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir o ran amlinellu cynnydd mewn gwybodaeth a sgiliau. Mae galwad ar i'r canllawiau ymestyn eu cymorth i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. I rai ymarferwyr, nid yw'r canllawiau presennol yn ymdrin yn ddigonol ag anghenion yr

amgylcheddau addysgol penodol hyn. Mae eraill yn argymell bod yn fwy penodol ynghylch diben y crynodeb o’r cwricwlwm, gan gynnwys adnabod y gynulleidfa darged, nodi’r lefel gofynnol o fanylder, a chydbwyso athroniaeth/proses â chynnwys/asesu y cwricwlwm.

3.32 Yn ôl rhai ymatebwyr mae’r canllawiau hyn yn amlygu presenoldeb canllawiau sy’n rhy gymhleth ac sy’n gwrthdaro â bwriadau fframwaith y cwricwlwm. Mae ymateb arall yn argymell yr angen i adolygu astudiaethau achos i’w cysylltu â chrynodebau Canllawiau Gwella Ysgolion yn y dyfodol.

3.33 Codir pryderon eto ynghylch swm yr wybodaeth sydd yn y canllawiau, gydag apeliadau am i grynodebau o’r cwricwlwm a chynlluniau datblygu ysgolion gael eu dosbarthu. Roedd galwadau hefyd am enghreifftiau pellach o arferion da o wahanol rannau o Gymru ac eiriolaeth am ddull cenedlaethol o ddeall arferion gwahanol ranbarthau. Ynghyd â cheisiadau am fwy o amrywiaeth yn yr enghreifftiau a roddwyd, gan ofyn am gynrychiolaeth gan ysgolion mewn gwahanol ranbarthau daearyddol/economaidd a gwahanol gyd-destunau er mwyn adlewyrchu’n well dirwedd addysgol amrywiol Cymru.

3.34 Gwneir dadleuon yn erbyn yr angen am gwricwlwm a reolir yn ganolog, gan eirioli dros ddewis rhieni a mynegi pryder y gall rheolaeth ganolog wrthdroi enillion addysgol. Mae ymatebydd arall yn codi pryderon personol ynghylch grŵp yn ceisio gorfodi gwaharddiad ar gynnwys crefyddol penodol megis creadaeth yn y cwricwlwm gwyddoniaeth, gan ddadlau dros yr hawl i gyflwyno barnau gwahanol.

3.35 Mae’r teimladau cadarnhaol cyffredinol yn amlygu rôl y canllawiau fel meincnod i ysgolion, sy’n gosod cyfeiriad i arweinwyr addysgol, er bod hyn â phryderon ynghylch digonolrwydd adnoddau i’w gweithredu. I grynhoi, mae ymatebwyr yn nodi canfyddiad nad oes dim byd newydd yn y canllawiau ac yn awgrymu angen am ddisgwyliadau cliriach ynghylch lefel y manylder sy’n ofynnol mewn crynodebau o’r cwricwlwm. Mae pryderon yn codi hefyd ynghylch

cymhlethdod y canllawiau, gyda galwadau am ddosbarthu crynodebau ac enghreifftiau.

**Effeithiau ar y Gymraeg**

3.36 Mae cwestiynau 5 a 6 ar yr effaith ar y Gymraeg yn gwestiynau safonol sy'n cael eu cynnwys yn holl ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

*Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr adran Ymlaen â'r Daith hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?*

3.37 Mae amryw o ymatebwyr yn pwysleisio trin y Gymraeg yn gyfartal neu ei hyrwyddo'n gadarnhaol. Mae un yn dadlau "na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg" gan gyfeirio hefyd at ganllawiau NEU Cymru, yn unol â Deddf y Gymraeg. Mae eraill yn awgrymu barn na fydd y canllawiau'n effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg.

3.38 Fodd bynnag, mae rhai ymatebion sy'n awgrymu nad yw'r Gymraeg wedi cael lle amlwg ac yn pryderu nad yw'n cael sylw penodol yn y ddogfen. Dywedodd un, "Dw i ddim yn meddwl y bydd y canllawiau hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Dydyn nhw ddim yn ei chrybwyll o gwbl". Mae ymateb arall yn amlygu pwysigrwydd diwylliannol y Gymraeg a'i dylanwad cadarnhaol ar gymuned a brawdgarwch maent yn sylwi arno mewn ysgolion yng Nghymru.

3.39 Y tu hwnt i farnau uniongyrchol ar effaith y canllawiau ar y Gymraeg, roedd ymatebion eraill yn cyfleu barnau amrywiol ar y pwyslais ar y Gymraeg mewn addysg. Teimlai rhai fod addysgu'r Gymraeg yn llesteirio amserlen ddysgu myfyrwyr, gyda phryderon ychwanegol am y dull o addysgu'r Gymraeg, gan awgrymu y gallai gorfodaeth droi

pobl yn erbyn ei dysgu. Mae'n cynghori y dylai canllawiau ganolbwyntio yn lle hynny ar ddarllen ac ysgrifennu Saesneg cyn addysgu'r Gymraeg yn ddewisol. Mae un ymateb yn gwneud y ddadl fod arnynt eisiau "… llai o Gymraeg mewn ysgolion yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae angen i'r canolbwyntio fod ar y Saesneg". Mae hyn yn fater llosg iawn o fewn yr ymatebion ond nid yw'r canllawiau yr ymgynghorir arnynt yn ymwneud â phynciau na disgyblaethau penodol.

3.40 Mae casgliad arall o ymatebion yn amlygu pryderon ynghylch ymarferoldeb gweithredu canllawiau'r cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg, gan awgrymu bod gan athrawon cyfrwng Saesneg sy'n addysgu'r Gymraeg lwyth gwaith llawn eisoes: "Disgwyliadau afrealistig o athrawon prysur sydd eisoes â SWYDD LAWN-AMSER".

3.41 Yn ogystal, dengys pump o ymatebion nad oes ganddynt farn ar y defnydd o'r Gymraeg yn y canllawiau a bod ganddynt deimladau niwtral ar ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

*Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r adran Ymlaen â'r Daith hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau:*

*ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?*

*nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?*

3.42 Roedd amryw o'r ymatebwyr yn mynegi safiad cryf yn erbyn unrhyw newidiadau yn y canllawiau, gan ddadlau bod y canllawiau sy'n bod eisoes yn ddigonol. Ar y llaw arall, mae barn i'r gwrthwyneb yn pwysleisio'r angen am newid yn y canllawiau ac am fwy o effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg. Mae rhai ymatebwyr yn mynegi awydd am gwricwlwm sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ymgorffori'r Gymraeg, gan ei gweld fel arf i feithrin canlyniadau cymdeithasol a diwylliannol

cadarnhaol. Fodd bynnag, mae is-set o fewn y grŵp hwn nad yw'n rhannu'r un brwdfrydedd dros flaenoriaethu'r Gymraeg, gan ddangos gwahaniaeth barn ar arwyddocâd yr iaith.

3.43 Mae set arall o bryderon yn troi o gwmpas cyfeirio penodol annigonol at y Gymraeg yn y canllawiau hyn. Mae hyn yn ysgogi galwad am adran benodol yn y canllawiau Ymlaen â'r Daith hyn ar sut y dylid datblygu'r Gymraeg ar draws pob pwnc o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae absenoldeb cyfeiriadau penodol o'r fath yn y canllawiau hyn yn codi pryderon ynghylch integreiddio'r Gymraeg mewn modd cynhwysfawr â'r tirwedd addysgol. Mae ymatebwyr yn nodi'r hyn a all fod yn gyfle coll i gysoni'r cwricwlwm â dogfennau perthnasol eraill, megis Cymraeg 2050, Cytundebau Grantiau Cymorth Categoreiddio awdurdodau lleol, a phapur gwyn ar Addysg Gymraeg sydd ar y ffordd.

3.44 Mae eirioli dwyieithrwydd yn dod i'r amlwg fel thema allweddol, gyda rhai ymatebwyr yn galw am gael gwared ar rwystrau a hyrwyddo cymdeithasau trwyadl ddwyieithog. Mae awgrymiadau ar gyfer gweithredu yn cynnwys arddangos enghreifftiau o arferion Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i weithredu fel modelau. Yn ogystal, mynegir amheuaeth ynghylch y canllawiau hyn a chysylltiad gyda thocenistiaeth. Mae rhai ymatebwyr yn cysylltu'r mater â chyd-destun gwleidyddol ehangach, gan awgrymu y gallai newidiadau yn y cwricwlwm gyfrannu at achos rhyddhau neu atgyfnerthu deinameg grym presennol.

3.45 Mae'r ddadl yn ymestyn i'r dewis o ddysgu Cymraeg, gyda rhai'n eirioli i hyn fod yn ddewis yn hytrach na mesur gorfodol. Ar y llaw arall, mae eraill yn mynegi awydd i'r Saesneg gael blaenoriaeth dros y Gymraeg yn y cwricwlwm. Creffir hefyd ar ansawdd yr iaith yn y ddogfennaeth, gydag adborth yn dangos bod y Gymraeg yn gyfieithiad o'r Saesneg yn hytrach na fersiwn Gymraeg. Mae ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am ddogfen Gymraeg fwy darllenadwy a naturiol er mwyn annog ehangu'r graddau y caiff ei darllen a'i defnyddio ymysg siaradwyr Cymraeg.

3.46 Yn olaf, caiff problemau trefniadol o fewn ysgolion eu nodi fel her, gyda beirniadaeth yn cael ei hanelu at amwysedd yr wybodaeth a ddarperir gan Gonsortia ledled Cymru. Mae rhai ymatebwyr yn amau a fydd gwelliannau yn y canllawiau yn mynd i'r afael yn effeithiol â phroblemau trefniadol. Yn y pen draw, mae nifer nodedig o ymatebwyr sydd naill ai'n peidio â mynegi dim barn neu beidio â rhoi dim sylw, gan ddangos safiad niwtral neu ddiffyg diddordeb ynghylch agweddau penodol o'r canllawiau.

**Sylwadau ychwanegol**

*Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.*

3.47 Canfuwyd amryw o themâu yn yr ymatebion i'r cwestiwn olaf sy'n gofyn am sylwadau ychwanegol.

3.48 Y thema gyntaf oedd heriau'n ymwneud â llwyth gwaith a gweithredu, lle'r oedd ymatebwyr lluosog yn mynegi pryderon am y cynnydd mewn llwyth gwaith i weithwyr proffesiynol addysg. Pwysleisiwyd yr angen am asesiad o effaith ar lwyth gwaith. Yn ogystal, gwnaed ceisiadau am ddysgu proffesiynol a mwy o amser cynllunio, paratoi ac asesu i helpu gweithredu'r cwricwlwm newydd, yn ogystal â dogfen ganllawiau fwy cryno a symlach.

3.49 Roedd un ymatebydd yn mynegi pryder hefyd y bydd y canllawiau'n fwy anodd eu gweithredu mewn ysgolion uwchradd, gan fod gan ysgolion cynradd "draddodiad cryfach o weithio dan arweiniad cymheiriaid" ac yn tueddu i fod yn lleoliadau llai, gan ganiatáu "rhannu llafur yn well".

3.50 Roedd yr ail thema'n canolbwyntio ar heriau ariannol a dysgu proffesiynol. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryderon am doriadau ariannol yn effeithio ar gapasiti ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, codwyd rhai pryderon ynghylch ansawdd a

thegwch y cynnig dysgu proffesiynol, gyda galwad am fframwaith proffesiynol tecach.

3.51 Roedd thema arall yn ymwneud â chefnogaeth sefydliadau a chynnwys rhanddeiliaid. Roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am fwy o eglurder ar rôl sefydliadau haen-ganol mewn cefnogi ymarferwyr. Yn ogystal, roedd rhai cyfranogwyr yn holi am gynulleidfa arfaethedig y canllawiau a'r angen am ganolbwyntio ar ymarferwyr yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm.

3.52 Roedd un ymatebydd yn crybwyll yr awydd am fformat mwy ymarferol, gydag awgrymiadau am gyflwyno'r ddogfen mewn cerrig milltir i helpu ysgolion i olrhain eu cynnydd wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

3.53 Thema arall oedd cysondeb gyda chymwysterau, lle'r oedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i'r canllawiau hyn fod yn gyson â chanllawiau TGAU a Thystysgrif Addysg Uwchradd Alwedigaethol, yn enwedig gan fod disgwyl i hyn roi llawer mwy o bwyslais ar asesu ffurfiannol. Mae hyn yn wahanol i "addysgu er mwyn y prawf", nad yw'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm.

3.54 Caiff cysoni'r cod ADY â'r Cwricwlwm i Gymru ei amlygu fel cyfle, yn ogystal â'r angen i gyfeirio'n benodol at egwyddorion y system ADY yn y canllawiau er mwyn sicrhau dull ysgol-gyfan o ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag ADY, gyda phwyslais ar addysg cynhwysol.

3.55 Roedd rhai ymatebwyr yn amau pa mor dda mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Cynllun Gwrth-Hiliaeth Llywodraeth Cymru a cynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill yn wynebu y diffyg pwyslais ar yr angen i "adolygu addysgeg a chyflawni trawsnewid ar lefel system". Gwnaed awgrymiadau i weithio'n agosach gydag athrawon Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth ac athrawon Du i integreiddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i'r canllawiau i fynd i'r afael â gwahaniaethau a bylchau cyrhaeddiad grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Roedd galwadau am fwy

o wybodaeth ar gau'r bwlch cyrhaeddiad ac ystyried nodweddion gwarchodedig, tlodi, ac allgáu cymdeithasol o fewn y canllawiau, yn ogystal ag argymhellion i ddiweddaru asesiad effaith y Cwricwlwm ar gydraddoldeb a chynnwys cwestiynau ymgynghori penodol ar faterion cydraddoldeb.

3.56 Eiriolwyd pwysigrwydd hyfforddiant CPR mewn ysgolion, gyda phryderon ynghylch ymwybyddiaeth athrawon o CPR a'u parodrwydd i'w addysgu. Pwysleisiwyd yr angen i adnabod adnoddau sydd ar gael, megis yr ap Classroom RevivR, a'r angen am ymwybyddiaeth ychwanegol ymysg athrawon.

3.57 Gofynnodd un ymatebydd i'r cwricwlwm adlewyrchu dewisiadau crefyddol a chynnwys persbectifau amrywiol, yn enwedig mewn meysydd gwyddonol. Roeddent yn dweud ei bod yn bwysig "cydnabod pwysigrwydd agweddau crefyddol ac osgoi agwedd unochrog at esboniadau gwyddonol".

Roedd un ymatebydd yn disgrifio'i awydd i ddiddymu addysg ganolog a'r ffordd mae'r llywodraeth yn ymwneud ag addysg, gan fynegi anfodlonrwydd gyda'r system bresennol.

## 4. Casgliad

4.1 Cafodd y 32 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u casglu at ei gilydd i ffurfio sail yr adroddiad hwn.

4.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â Chwestiwn 1, fod y canllawiau'n nodi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd 21 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Manylodd ymatebwyr ar y safbwyntiau hyn, gan fynegi barn yn ymwneud ag eglurder disgwyliadau a hygyrchedd y canllawiau. Roedd amryw o ymatebwyr yn croesawu'r ymgais i symleiddio'r canllawiau i ysgolion, gan eu gweld fel rhai sydd wedi eu strwythuro'n dda ac yn amlinellu disgwyliadau clir. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ynghylch eglurder a hygyrchedd. Mynegwyd ymatebion pellach ynghylch yr effaith ar addysgu, yn enwedig o safbwynt baich gwaith eu gweithredu a chanolbwyntio ar addysgu.

4.3 Roedd llawer o ymatebwyr (57 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â Chwestiwn 2, fod y canllawiau'n cynnwys lefel briodol o fanylder. Roedd 36 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr awydd i fod yn gryno, gan amlygu elfennau o ailadrodd a hefyd rai bylchau yn y canllawiau. Codwyd sylwadau pellach ynghylch pryderon yn ymwneud ag adnoddau a chynwysoldeb.

4.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (57 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â Chwestiwn 3, fod y canllawiau'n cyfeirio'n effeithiol at ddeunyddiau ategol y Cwricwlwm i Gymru ac adrannau eraill perthnasol canllawiau'r Fframwaith. Roedd 33% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Y farn oedd bod cyfeirio o fudd pan gaiff ei wneud yn dda, fodd bynnag roedd pryderon fod swm llethol o wybodaeth yn cael ei gyfleu a bod angen am enghreifftiau a ffeithluniau ymarferol, yn ogystal â phwyslais ar hygyrchedd a hepgoriadau, a restrir yn benodol mewn ymatebion.

4.5 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (64 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y canllawiau a roddwyd ar grynodebau o'r cwricwlwm yn ddefnyddiol. Roedd 25 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi teimladau cadarnhaol ynghylch defnyddioldeb y canllawiau, gyda rhai ymatebwyr yn nodi argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau.

4.6 Roedd amryw o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd trin y Gymraeg yn gydradd neu ei hyrwyddo'n gadarnhaol. Dangosodd ymatebwyr eraill ddiffyg barn neu beidio â rhoi sylw ar y mater, ac awgrymodd rhai ymatebwyr ymhellach na fydd y canllawiau yn effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg.

4.7 Teimlai rhai ymatebwyr fod y canllawiau presennol yn ddigonol, gan fynegi gwrthwynebiad i'r syniad fod angen newidiadau. Mae eraill nad ydynt yn gweld blaenoriaethu'r Gymraeg fel rhywbeth pwysig yn y cyd-destun hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch absenoldeb cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn y canllawiau ac roedd eraill yn eirioli hyrwyddo dwyieithrwydd wrth greu'r ddogfen ac yn ymarferol mewn ysgolion.

4.8 Crybwyllwyd sawl gwahanol thema mewn ymateb i'r cwestiwn olaf. Roedd hyn yn cynnwys llwyth gwaith, heriau wrth weithredu a heriau ariannol, cynnwys rhanddeiliaid a chysondeb â dogfennau eraill.

# 5. Atodiad A – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 –** I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn, ochr yn ochr â chanllawiau cyfredol y Cwricwlwm i Gymru, yn nodi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru?

- Cytuno'n gryf / Cytuno i raddau / Ddim yn cytuno nag anghytuno / Anghytuno i raddau / Anghytuno'n gryf
- Blwch sylwadau

**Cwestiwn 2 –** I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn yn cynnwys lefel briodol o fanylder?

- Cytuno'n gryf / Cytuno i raddau / Ddim yn cytuno nag anghytuno / Anghytuno i raddau / Anghytuno'n gryf
- Blwch sylwadau

**Cwestiwn 3 –** I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau Ymlaen â'r Daith arfaethedig hyn yn cyfeirio'n effeithiol at ddeunyddiau ategol y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau'r Fframwaith?

- Cytuno'n gryf / Cytuno i raddau / Ddim yn cytuno nag anghytuno / Anghytuno i raddau / Anghytuno'n gryf
- Blwch sylwadau

**Cwestiwn 4 –** I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau a roddwyd yn Ymlaen â'r Daith ar grynodebau o'r cwricwlwm yn ddefnyddiol?

- Cytuno'n gryf / Cytuno i raddau / Ddim yn cytuno nag anghytuno / Anghytuno i raddau / Anghytuno'n gryf
- Blwch sylwadau

**Cwestiwn 5 –** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr adran Ymlaen â'r Daith hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| • Blwch sylwadau |
| **Cwestiwn 6 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r adran Ymlaen â'r Daith hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau:<br>• ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br>• nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br>• Blwch sylwadau |
| **Cwestiwn 7 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.<br>• Blwch sylwadau |